Gadael y carchar

Pryd gewch chi'ch rhyddhau

Bydd y carchar yn dweud wrthych beth yw'r dyddiad cynharaf y cewch eich rhyddhau. Fel arfer dywedir wrthych y dydd ar ôl i chi gael eich dedfrydu. Weithiau mae'n anodd iddynt i weithio allan pryd y cewch eich rhyddhau, er enghraifft, os oeddech chi yn nalfa'r heddlu cyn eich dedfrydu. Mae'r Gwasanaeth Carchardai wedi cynhyrchu arweiniad ynglŷn â sut y cyfrifir dedfrydau (Gorchymyn Gwasanaeth Carchardai 6650) Gallwch gael hwn yn llyfrgell y carchar neu o wefan y Gwasanaeth Carchardai yn www.hmprisonservice.gov.uk.

Gall rhai carcharorion wneud cais am gael eu rhyddhau dros dro cyn diwedd eu dedfryd. Er enghraifft, efallai y caniateir i chi gael eich rhyddhau am ddiwrnod er mwyn i chi gymryd rhan mewn cyrsiau hyfforddiant arbennig nas gellir eu cynnig y tu mewn i'r carchar. Neu os ydych yn dod i ddiwedd eich dedfryd, efallai y caniateir i chi allan ar drwydded dros nos, er mwyn i chi dreulio amser yn eich cyfeiriad rhyddhau. Mynnwch gyngor i weld a allwch chi wneud cais am gael eich rhyddhau dros dro.

Os rhoddir dedfryd fer i chi (llai na phedair blynedd) efallai y cewch chi'ch rhyddhau ar gyrffyw cadw i'r cartref cyn diwedd eich dedfryd (**tagio**). Cewch eich monitro gan dag bychan trydanol sydd wedi'i gysylltu i'ch pigwrn. Mynnwch gyngor i weld os allwch chi wneud cais am dagio. Os rhyddheir chi ar gyrffyw cadw i'r cartref, gwnewch yn siŵr eich bod yn deall yr amodau. Os ydych chi'n torri'r amodau, bydd yn rhaid i chi fynd yn ôl i'r carchar.

Paratoi i adael y carchar

Pryd bynnag y byddwch yn gadael y carchar, fe fydd yna bethau ymarferol i'w trefnu. Fe allwch chi gael help i drefnu rhai pethau tra byddwch chi yn y carchar o hyd. Dewch i gysylltiad â'r tîm ailgyfanheddu a leolir yn eich carchar. Efallai y byddan nhw'n cynnal cwrs i'ch helpu i ddod yn barod i adael.

Dillad

Pan fyddwch chi'n gadael y carchar, fe ddylech gael yn ôl yr holl ddillad oedd gennych pan ddaethoch chi i mewn. Os nad yw'ch dillad yn ffitio mwyach neu heb fod yn iawn ar gyfer yr adeg o'r flwyddyn, gofynnwch i'r carchar am roi dillad addas i chi cyn gadael. Os na chewch chi ddillad addas gan y carchar, efallai y gallwch chi gael grant Gofal Cymuned i'ch helpu i gael dillad. Er mwyn cael help i hawlio grant, cysylltwch â'ch swyddfa Cyngor ar Bopeth.

Eiddo

Pan fyddwch chi'n gadael y carchar, fe ddylech chi dderbyn eich holl eiddo yn ôl. Bydd yn rhaid i chi arwyddo amdanynt ac felly gwiriwch yn ofalus a pheidiwch ag arwyddo am ddim sy'n eisiau. Os yw pethau wedi mynd yn eisiau, fe allwch gael help i wneud cwyn. Efallai y gallwch fynd i'r llys am iawndal.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Arian

Pan fyddwch chi'n gadael y carchar, efallai y cewch chi:

- gwarant deithio. Mae hwn ar gyfer talu am eich taith yn ôl adref neu unrhyw le arall ym Mhrydain neu Weriniaeth Iwerddon lle byddwch chi'n ymgartrefu.
- grant rhyddhau. Arian yw hwn i'ch helpu gyda chostau byw am yr wythnos gyntaf ar ôl i chi adael y carchar. Mae'n rhaid i chi hawlio grant rhyddhau o leiaf pedair wythnos cyn i chi adael y carchar. Chaiff rhai carcharorion ddim grant rhyddhau, er enghraifft, y mwyafrif o garcharorion o dan 18 oed. Chewch chi ddim grant rhyddhau os ydych chi'n aros i gael eich alltudio (eich anfon yn ôl i'ch gwlad eich hun).

Fe ddylech wneud cais am fudd-daliadau cyn gynted ag sy'n bosibl wrth i chi adael y carchar. Mynnwch help i wneud cais. Cysylltwch â thîm Cynnig Newydd yn y carchar fydd yn gallu helpu i drefnu cyfweliad i chi yn y swyddfa Canolfan Byd Gwaith cyn gynted ag y byddwch chi'n gadael y carchar. Os ydych chi'n 16 neu 17, efallai y cewch chi gymorth ariannol oddi wrth y gwasanaethau cymdeithasol fel 'plentyn mewn angen'. Mynnwch help i wneud cais i'r gwasanaethau cymdeithasol.

Edrych am rywle i fyw

Os ydych chi wedi colli'ch cartref tra roeddech chi yn y carchar, fe fydd yn rhaid i chi drefnu llety. Yn y mwyafrif o garchardai, mae yna ymgynghorwyr tai arbenigol fydd yn gallu helpu i sortio'ch opsiynau tai.

Cael swydd

Efallai y gallwch ddechrau chwilio am waith cyn gadael y carchar. Ceisiwch ddarganfod pa help sydd ar gael yn eich carchar i'ch helpu chi i chwilio am waith. Pan fyddwch chi'n gadael y carchar, efallai y byddwch yn gallu ymuno â chynllun o'r enw Rhaglen Waith a all eich helpu chi dod o hyd i swydd. Gofynnwch i Ymgynghorydd yn eich Ganolfan Waith.

Mae yna reolau ynglŷn â datgan eich cofnod troseddol wrth i chi ymgeisio am swydd. Ar gyfer rhai swyddi, megis gweithio gyda phlant, pobol anabl neu bobol fregus eraill, fe fydd yn rhaid i chi bob amser ddatgan eich euogfarnau troseddol, pa bryd bynnag y'u cyflawnwyd.

Fe all fod yn anodd dod o hyd i swydd os oes gennych gofnod troseddol. Mae'n gyffredin cael eich gwahaniaethu os ydych wedi bod yn y carchar. Ond mae yn erbyn y gyfraith i'ch trin yn annheg oherwydd pethau fel eich hil, tarddiad ethnig, oedran neu grefydd. Mae yn erbyn y gyfraith hefyd i'ch trin yn annheg oherwydd eich bod yn fenyw neu'n lesbiaiddd neu'n hoyw neu oherwydd eich bod yn anabl. Os ydych chi'n credu eich bod yn cael eich trin yn annheg oherwydd rhywbeth fel hyn, mynnwch gyngor ynglŷn â beth i'w wneud.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Hyfforddiant

Efallai yr hoffech ystyried cael hyfforddiant wrth i chi adael y carchar. Gall hyn eich rhoi mewn gwell sefyllfa i gael swydd yn ddiweddarach. Gall Canolfannau Gwaith roi gwybodaeth i chi am gyfleoedd hyfforddi. Gallech dderbyn cymorth ariannol i fynychu rhai cyrsiau.

Cofrestr Troseddwyr Rhyw

Os cafwyd chi'n euog o droseddau rhyw arbennig, mae'n rhaid i chi roi eich enw a'ch cyfeiriad i'r heddlu pan fyddwch chi'n gadael y carchar. Mae'n rhaid i chi roi gwybod iddynt am unrhyw newidiadau. Mae pa mor hir y byddwch chi ar y gofrestr yn dibynnu ar eich dedfryd.

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth

Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys unrhyw fath o broblem.

Mae rhai Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhedeg sesiynau cyngor yn y carchar. Os ydych yn y carchar, holwch os ydynt yn cynnig y sesiynau hyn yn eich carchar chi. Os nad ydynt yn rhedeg sesiynau cyngor, mae'n bosib i chi ysgrifennu at eich CAB lleol gan esbonio eich problem. Gofynnwch i aelod o staff y carchar am gyfeiriad eich CAB lleol.

Os nad ydych yn y carchar, ac rydych chi am ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy'r e-bost, cliciwch ar CAB agosaf neu chwiliwch o dan C yn eich llyfr ffôn.

Nacro

Mae Nacro yn sefydliad arbenigol sy'n helpu carcharorion sy'n cael eu rhyddhau. Fe allwch eu ffonio ar: 0800 0181 259. Eu gwefan yw www.nacro.org.uk Maent yn ysgrifennu taflenni allai'ch helpu chi pan fyddwch chi'n gadael y carchar. Fe allwch lawr lwytho eu taflenni o'u gwefan.

Ymddiriedolaeth Hardman

Mae Ymddiriedolaeth Hardman yn trefnu cynllun dyfarnu cyllid i garcharorion unigol yn Lloegr a Chymru. Fe allwch wybod mwy a lawr lwytho ffurflen gais o'u gwefan. Maent hefyd yn cynhyrchu Cyfeiriadur Funder Carchar. Mae hwn yn rhoi gwybodaeth i garcharorion a chyn-droseddwyr sy'n edrych am gyllid ar gyfer datblygiad personol, megis dilyn cyrsiau, neu ailgyfanheddu. Fe allwch ddod o hyd i'r cyfeiriadur ar-lein yn www.hardmantrust.org.uk. Neu fe allwch eu ffonio ar: 01983 539 373.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Carcharorion - cael cymorth ychwanegol
- Carcharorion - problemau gydag eiddo
- Carcharorion a budd-daliadau
- Cynlluniau cyflogaeth y Llywodraeth
- Carcharorion a thai
- Addysg i Oedolion: sefydliadau sy'n rhoi gwybodaeth a chyngor

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 20 Rhagfyr 2011, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - www.adviceguide.org.uk - lle gallwch lawr lwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr